Banc



# Cynllun Benthyciadau Busnes Gwyrdd

Banc Datblygu Cymru

# Cynnwys


**Cyflwyniad** 3

**Busnesau cymwys**

— Pwy sy'n cael gwneud cais? 5

**Prosiectau cymwys**

— Pa brosiectau sy'n gymwys? 5

— Pa brosiectau sydd ddim yn gymwys i dderbyn cyllid? 6

**Cynnig cyllid**

— Beth yw'r cynnig o fenthyciad i fusnesau gwyrdd? 7

— Pa wybodaeth ategol sydd ei hangen wrth wneud cais? 8

**Canllawiau ar gyfer gwneud cais am gyllid**

— Sut mae cael gafael ar y ffurflen gais? 9

— Sut mae llenwi'r ffurflen gais? 9

**Cwestiynau cyffredin**

— Busnesau cymwys 13

— Prosiectau cymwys 13

— Cynnig cyllid 13

— Y broses ymgeisio 15

— Taliad 15

— Manylion cyswllt 15

— **Atodiad 1:** Enghreifftiau o fesurau a gefnogwyd 16




# Cyflwyniad

Bwriad y Cynllun Benthyciadau Busnes Gwyrdd yw cynnig pecyn cymorth i alluogi busnesau Cymru i fynd i'r afael ag effeithlonrwydd ynni a chamau datgarboneiddio. Yn benodol, mae nodau'r cynllun fel a ganlyn:

— Darparu cynnig 'buddsoddi i arbed' i fusnesau o gyllid hygyrch i ymgymryd â gweithgarwch effeithlonrwydd ynni a datgarboneiddio gyda'r nod o leihau costau gweithredu;

— Cefnogi busnesau i ddiogelu eu hunain rhag prisiau ynni cyfnewidiol yn y dyfodol; a

— Rhoi busnesau ar ben ffordd o ran cyrraedd nodau sero net.

Mae busnesau'n gallu cael mynediad at ddau faes cymorth drwy'r cynllun. Efallai bod a) eich prosiect yn barod a'ch bod yn dymuno gwneud cais yn uniongyrchol am gyllid benthyciad, neu b) bod angen cymorth arnoch chi i ddeall cyfleoedd penodol eich busnes o ran effeithlonrwydd ynni a datgarboneiddio, gan gynnwys prosiectau sy'n gysylltiedig ag adeiladu, ac eich bod yn dymuno gwneud cais am arian cyfatebol ar gyfer costau ymgynghori arbenigol.

**Cymorth cyllid** - Os yw eich busnes wedi penderfynu pa fesur, neu set o fesurau, yr hoffech chi eu datblygu i leihau eich defnydd o ynni ac ôl troed carbon, gallwch chi wneud cais am gyllid yn uniongyrchol. Bydd angen i chi fod wedi cysylltu â chyflenwr neu gontractwr i gefnogi'r prosiect a chael dyfynbris llawn ar gyfer y gwaith sydd i'w wneud. Byddwn ni'n gweithio gyda chi i ddatblygu pecyn cyllido sydd wedi'i strwythuro o amgylch ad-daliad disgwyliedig y prosiect, gyda thaliadau 12 mis cyntaf y benthyciad yn rhai llog yn unig.

**Mae'r manylion llawn ynglŷn â chymhwysedd, telerau a sut i wneud cais ar gael yn y ddogfen hon.** Neu, os hoffech chi drafod y Cynllun Benthyciadau Busnes Gwyrdd gydag un o'n tîm, anfonwch e-bost at greenbusiness@developmentbank.wales neu ffoniwch **0800 587 4140**.

**Ymgynghori arbenigol – archwilio ynni a chymorth i ddatblygu prosiectau** - Ar gyfer y busnesau hynny sydd eisiau gwneud gwelliannau i'w busnes sy'n gysylltiedig ag ynni ond sy'n ansicr beth yn union i'w wneud nesaf, mae dau lwybr i gael gafael ar gymorth ymgynghorol drwy'r cynllun:

— I gael cyngor wedi'i ariannu'n llawn, mae busnesau'n cael eu gwahodd i gysylltu â Busnes Cymru i gael gwasanaeth eu Cynghorwyr Effeithlonrwydd Adnoddau. Bydd yr ymgynghorwyr hyn yn gweithio gyda'ch busnes i adolygu eich defnydd o ynni ac yn rhoi adroddiad i chi yn amlinellu'r prif feysydd gweithredu ar gyfer eich busnes.

— Fel arall, os oes angen adolygiad 'manylach' i'ch gweithgarwch busnes, neu os oes gennych chi ystyriaethau mwy cymhleth, mae cyllid grant ar gael ar sail 50:50 o arian cyfatebol i'ch busnes allu cysylltu ag ymgynghorydd ynni cymwys i gwblhau archwiliad ynni a datblygu cynllun gweithredu prosiect gyda chi.

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn archwilio'r naill opsiwn neu'r llall ymhellach, cysylltwch â thîm Busnes Cymru ar **0300 060 3000** neu ewch i Busnes Cymru.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma.

# Siart llif taith y cwsmer

**Dechrau**

Dydw i ddim yn siŵr ble i ddechrau a hoffwn gael rhagor o arweiniad

↓

Ewch i bancdatblygu.cymru/gwyrdd i gael rhagor o wybodaeth am sut mae cael gafael ar gymorth ymgynghorol

→

**Dechrau**

Mae gen i brosiect sy'n barod am gyllid

↓

Cyflwyno cais am gyllid gyda'r holl wybodaeth ategol angenrheidiol

↓

Wedi adolygu'r cais ac wedi cynnal diwydrwydd ariannol a thechnegol

↓

Cynnig wedi'i wneud a'r prosiect wedi dechrau

↓

Prosiect wedi'i gwblhau. Cyllid wedi'i godi yn unol â gofynion y prosiect

# Cymhwysedd

## Cymhwysedd busnes

**Pwy sy'n cael gwneud cais?**

I fod yn gymwys:

— Rhaid i'ch cwmni fod wedi'i leoli yng Nghymru a rhaid dangos tystiolaeth eich bod yn masnachu o eiddo Cymru.

— Rhaid eich bod wedi bod yn masnachu am o leiaf dwy flynedd a bod gennych chi o leiaf un set o gyfrifon blynyddol wedi'u ffeilio.

— Byddwch yn gwneud cais am fenthyciad rhwng £1,000 a £1,500,000.

— Gall fod yn gwmni cyfyngedig, yn unig fasnachwr neu'n bartneriaeth.

— Mae'n rhaid bod gennych hanes credyd boddhaol a thystiolaeth bod taliadau CThEF a Thalu Wrth Ennill wedi'u diweddaru.

— Gall fod yn fusnes bach, canolig neu fawr.

— Rhaid bod yn gymwys o dan y Cynllun Cymhorthdal Defnydd Ynni Wedi'i Symleiddio neu, fel arall, rhaid bod â lwfans digonol yn weddill o dan yr eithriad Cymorth Ariannol Lleiaf. Mae hyn er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â rheolau rheoli cymhorthdal y DU. Gweler yr adran Cwestiynau Cyffredin am ragor o wybodaeth.

— Rhaid peidio â bod yn gweithredu mewn sector anghymwys - gweler yr adran Cwestiynau Cyffredin am ragor o wybodaeth.

**Sylwer:** Nid yw landlordiaid sector preifat yn gymwys ar gyfer y Benthyciadau Busnes Gwyrdd ond efallai y byddan nhw'n dymuno cysylltu â Busnes Cymru i gael rhagor o gyngor ac arweiniad. Mae rhagor o fanylion ar gael yma.

## Cymhwysedd prosiect

**Pa brosiectau sy'n gymwys?**

Nod y Cynllun Benthyciadau Busnes Gwyrdd yw rhoi pecynnau cyllido priodol i fusnesau er mwyn iddyn nhw allu gwneud gwelliannau effeithlonrwydd ynni a datgarboneiddio a fydd yn eu helpu i leihau costau a chefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion strategol hirdymor Cymru ar gyfer sero net.

Er mwyn bod yn gymwys i gael cyllid, rhaid i brosiectau fod â chost carbon sydd ddim yn fwy na £325 y dunnell o CO2e wedi'i arbed er mwyn pennu lefel ddigonol o effeithiolrwydd carbon ar gyfer y mesurau rydych chi'n eu rhoi ar waith, yn ogystal â gwerth am arian. Bydd prosiectau sydd ddim yn bodloni'r meini prawf hyn yn dal i gael eu hasesu fesul achos i ystyried y manteision a'r effeithiau ehangach. Fel rhan o'ch cais am gyllid, bydd gofyn i chi lenwi'r Templed gwybodaeth prosiect. Drwy'r wybodaeth a fydd yn cael ei chyflwyno yma, bydd eich trothwy costau carbon yn cael ei ddangos.

**Fel enghraifft syml:** Mae eich prosiect yn bwriadu gosod mesurau arbed ynni ar gost o £25,000. Cyfanswm y carbon a fydd yn cael ei arbed ym mlwyddyn un yw 10 tunnell CO2e. Cyfanswm y carbon a fydd yn cael ei arbed dros oes y prosiect yw 100 tunnell CO2e. Felly, mae effeithlonrwydd carbon eich prosiect yn cael ei gyfrifo ar £250/tunnell CO2e dros oes y prosiect, gan olygu ei fod yn gymwys.

Dyma'r mathau o brosiectau sy'n gymwys i gael cyllid drwy'r Cynllun Benthyciad Busnes Gwyrdd:

— Gwresogi, awyru ac aerdymheru – newid, rheoli, technoleg carbon isel

— Gwella adeiladwaith adeiladau – inswleiddio, gwydr dwbl, goleuadau LED

— Ynni adnewyddadwy – solar ffotofoltäig, pympiau gwres o'r ddaear/aer/dŵr

— Gwella offer allweddol – monitro a rheoli, newid, technoleg carbon isel

— Defnydd dŵr a lleihau gwastraff/gwelliannau gwastraff

Mae enghreifftiau o'r mathau o brosiectau a gefnogir yn Atodiad 1. Os nad yw'r prosiect rydych chi'n ei ystyried wedi'i restru, cysylltwch â'n tîm i gael rhagor o gyngor ar greenbusiness@developmentbank.wales

**Pa brosiectau sydd ddim yn gymwys i dderbyn cyllid?**

Ni fydd y canlynol yn gymwys i gael cymorth:

— Nid yw prosiectau sy'n arwain at ddim arbedion carbon nac ynni, neu sy'n arwain at gynnydd mewn carbon, yn gymwys i gael cyllid.

— Nid yw prosiectau sy'n cynnwys gosodiadau newydd sy'n defnyddio tanwydd ffosil yn gymwys i gael cyllid.

— Ni fydd ceisiadau gan fusnesau lle mae cyfran sylweddol o'r gwres neu'r ynni a gynhyrchir yn debygol o gael eu gwerthu i drydydd partïon, h.y. y grid, busnesau eraill neu eiddo domestig, yn gymwys i gael cyllid.

— Prosiectau, yn enwedig prosiectau adeiladwaith, sy'n bodloni gofynion cydymffurfio neu ofynion eraill o ran effeithlonrwydd ynni yn unig, h.y. prosiectau sydd i sicrhau bod adeilad yn cydymffurfio â deddfwriaeth, gan gynnwys rheoliadau adeiladu neu safonau iechyd a diogelwch;

— Prosiectau sy'n talu costau trwyddedu meddalwedd parhaus.

— Costau personél mewnol sy'n gysylltiedig â'r prosiect

— Systemau gwresogi nwy neu gysylltiadau nwy.

— Os yw cyllid o gynlluniau cymorth neu gymhellion eraill eisoes wedi'i roi i'r prosiect i dalu'r un costau;

Os nad ydych chi'n siŵr a yw eich prosiect yn gymwys a bod angen rhagor o arweiniad arnoch chi, cysylltwch â'n tîm ar greenbusiness@developmentbank.wales.



# Cynnig y gronfa a gofynion ymgeisio

**Beth yw'r cynnig o fenthyciad i fusnesau gwyrdd?**

| | |
|---|---|
| **Maint y benthyciad** | Rhwng £1,000 a £1,500,000<br><br>Mae modd ystyried prosiectau mwy fesul achos. |
| **Hyd y benthyciad** | Yn gysylltiedig â'r ad-daliad ar y prosiect gyda hyblygrwydd am dwy flynedd ychwanegol dros yr ad-daliad sydd wedi'i gyfrifo – hyd at uchafswm o 15 mlynedd |
| **Ffi trefnu** | 0% (Fodd bynnag efallai y codir costau cyfreithiol a ffioedd diwydrwydd dyladwy) |
| **Cyfradd llog gyda disgownt gwyrdd** | Wedi'i gyfrifo fel net y gyfradd llog seiliedig ar risg safonol sy'n berthnasol i'ch busnes ac eithrio'r disgownt gwyrdd sy'n berthnasol i'r prosiect penodol. Ar hyn o bryd mae ein cyfraddau llog seiliedig ar risg safonol yn amrywio o 4.8% i 12.5% yn dibynnu ar lefel risg y busnes.<br><br>**Disgownt gwyrdd:**<br><br>**Safonol**<br><br>3.5% o ddisgownt ar gyfer pob prosiect cymwys<br><br>**Enhanced**<br><br>5.0% o ddisgownt ar gyfer prosiectau sydd ag ad-daliad anatyniadol (h.y. dros gyfnod y benthyciad) a/neu atebion gwres carbon isel. Gall hyn gynnwys technoleg gwres adnewyddadwy ac uwchraddio adeiladwaith.In all cases the lowest net interest rate that can be charged after discount is 3%.<br><br>Ym mhob achos, y gyfradd llog net isaf y mae modd ei chodi ar ôl disgownt yw 3%.<br><br>Mae'r gyfradd llog net yn aros yr un fath drwy gyfnod y benthyciad. |
| **Diogelwch** | **Disgwyliedig ond heb eu cyfyngu i'r canlynol:**<br>— Dyledeb o'r endid benthyca<br>— Morgais siatel/pridiant cyfreithiol<br>— Gwarant(au) personol gan gyfarwyddwr/rhanddeiliad |
| **Costau cymwys** | Rhaid i gostau cymwys fod:<br>— yn rhai a wynebwyd yn uniongyrchol o ganlyniad i'r prosiect neu'r gweithgaredd<br>— wedi'u cyfyngu i'r rheini sy'n gwbl angenrheidiol ar gyfer y prosiect neu'r gweithgaredd<br>— wedi'u cyfyngu i gyfnod y prosiect.<br><br>Mae angen i'r holl gostau sy'n gysylltiedig â'r prosiect gael eu nodi'n glir yn y Templed gwybodaeth prosiect sydd yn y ffurflen gais. |

## Pa wybodaeth ategol sydd ei hangen wrth wneud cais?

| | |
|---|---|
| **Gwybodaeth ariannol gefnogol sydd ei hangen** | — Crynodeb o'r cynllun busnes<br>— Cyfrifon hanesyddol (o leiaf blwyddyn, hyd at ddwy flynedd os ydyn nhw ar gael) gan gynnwys manylion elw a cholled<br>— Ar gyfer benthyciadau hyd at £150,001: Mae angen cwblhau llif arian 12 mis drwy ein templed gwybodaeth ariannol.<br>— Ar gyfer benthyciadau rhwng £150,001 a £350,000: Yn dibynnu ar hanes credyd, bydd angen i chi naill ai ddarparu llif arian 12 mis drwy ein templed gwybodaeth ariannol neu ragolwg integredig misol (dwy flynedd gan gynnwys elw a cholled, llif arian a mantolen). Ar ôl derbyn y cais, byddwn ni'n cysylltu â chi i gadarnhau pa un sydd ei angen arnom ni.<br>— Ar gyfer benthyciadau sy'n fwy na £350,000: Mae angen cwblhau rhagolwg integredig misol (dwy flynedd gan gynnwys elw a cholled, llif arian a mantolen).<br>— Gwybodaeth reoli gyfredol (gan gynnwys elw a cholled a mantolen)<br>— Cyfriflenni banc am y tri mis diwethaf<br>— Datganiad o unrhyw gymorth ariannol cyhoeddus arall y mae eich busnes wedi'i gael yn ystod y tair blynedd diwethaf er mwyn cydymffurfio â rheolau'r Drefn Rheoli Cymhorthdal.<br><br>Byddwn yn gofyn am wybodaeth ariannol ategol orfodol fel rhan o'r ffurflen gais ar-lein. |
| **Gofynion gwybodaeth am y prosiect** | Yn ogystal â'r wybodaeth ariannol a amlinellir uchod, bydd gofyn i chi ddarparu'r wybodaeth ganlynol sy'n benodol i'r prosiect:<br>— disgrifiad o'r prosiect arfaethedig gan gynnwys ei leoliad, a'i ddyddiad dechrau a gorffen disgwyliedig;<br>— canlyniadau/manteision disgwyliedig y prosiect/mesur;<br>— prif risgiau a mesurau lliniaru'r cynnig;<br>— costau disgwyliedig y prosiect, cyn unrhyw ddidyniadau, y mae'n rhaid i ddogfennau perthnasol eu hategu;<br>— rhaid nodi holl gostau'r prosiect yn glir gan gynnwys dyfynbris gan gyflenwyr a nodi a yw'n cynnwys TAW neu beidio. Rhaid dyfynnu holl gostau'r prosiect mewn GBP £.<br><br>bydd gofyn i'r busnes ddarparu'r canlynol hefyd:<br>— y defnydd blynyddol o ynni ar hyn o bryd mewn kWh a'r gost mewn £, wedi'i rannu ar draws ei brif ddefnydd e.e. trydan, nwy, ac ati<br>— amcangyfrif o'r arbediad ynni blynyddol mewn kWh a'r arbediad cost mewn £ o ganlyniad i'r prosiect<br>— Dyfynbris(iau) ar gyfer y prosiect(au) arfaethedig<br>— Manylion cyswllt cyflenwr/contractwr a'r gwerth i bob cyflenwr<br><br>Rydym yn mynnu bod ymgeiswyr yn contractio cyflenwyr sydd ag enw da ac sydd wedi'u hachredu ac sydd â chymwysterau perthnasol fel rhan o'r cais.<br><br>Ar gyfer prosiectau gwres carbon isel, systemau gwresogi newydd a phrosiectau ynni adnewyddadwy, mae'n bwysig bod adeiladwaith a mesurau effeithlonrwydd ynni yn cael eu nodi a'u rhoi ar waith cyn eu haddasu a'u gosod. |

# Arweiniad cais gronfa

**Sut mae cael gafael ar y ffurflen gais?**

Mae ffurflen gais y Cynllun Benthyciad Busnes Gwyrdd ar gael ar-lein ar bancdatblygu.cymru/gwyrdd. Os oes angen fersiwn PDF o'r cais arnoch chi, cysylltwch â greenbusiness@developmentbank.wales

I lenwi'r ffurflen gais, bydd angen y canlynol arnoch:

- Gwybodaeth am gefndir eich busnes a chyfarwyddwyr/rhanddeiliaid ynghyd â gwybodaeth ariannol yn cynnwys cyfriflenni banc, rhagolygon llif arian a chyfrifon wedi'u ffeilio.
- Gwybodaeth am y prosiect y byddwch chi'n ymgymryd ag ef (fel costau, arbedion cost a ragwelir, arbedion carbon, risgiau gweithredol).
- Dyfynbris gan gyflenwyr ar gyfer y gwaith gosod rydych chi'n bwriadu ei wneud.
- Gwybodaeth ategol am y prosiect yn dibynnu ar eich prosiect h.y., cynllun prosiect tynnu arian i lawr a thystiolaeth bod gennych ffynonellau cyllid eraill ar gael i dalu gweddill costau'r prosiect lle nad ydych yn gwneud cais am Fenthyciad Busnes Gwyrdd i dalu costau'r prosiect yn eu cyfanrwydd.
- Manylion unrhyw gymorth arall a ariennir yn gyhoeddus ar gyfer yr un prosiect y mae eich busnes wedi'i dderbyn neu wedi gwneud cais amdano yn y tair blynedd diwethaf.

**Sut mae llenwi'r ffurflen gais?**

Ar ôl i chi gofrestru ar y ddolen uchod, gallwch chi lenwi eich cais yn eich amser eich hun, gan gadw eich cynnydd wrth i chi fynd ymlaen. Byddwch chi'n gallu cyflwyno eich cais unwaith y bydd yr holl feysydd gorfodol a'r gofynion gwybodaeth ategol wedi'u cwblhau. Mae'r adrannau isod yn rhoi arweiniad ar lenwi'r ffurflen gais. Ond, os oes angen rhagor o gymorth arnoch chi, anfonwch e-bost at greenbusiness@developmentbank.wales

**1. Gwybodaeth am y Busnes**

- Rhowch enw eich busnes cyfreithiol llawn a disgrifiad byr o'ch busnes ynghyd â beth rydych chi'n ei wneud a'r hyn o bryd o ran gweithgareddau datgarboneiddio.
- Rhowch eich rhif cwmni, eich cyfeiriad busnes a'ch manylion cyswllt.
- Atebwch y cwestiynau 'manylion busnes' os gwelwch yn dda
- Rhowch eich trosiant, eich elw/colled a'ch asedau net ar gyfer y flwyddyn ariannol ddiwethaf
- Rhowch wybod os ydych chi'n masnachu y tu allan i'r DU
- Rhowch fanylion nifer y gweithwyr presennol a rhowch wybod os bydd unrhyw swyddi'n cael eu creu neu eu diogelu drwy'r prosiect hwn. Os nad oes un, rhowch 0.

**2. Gwybodaeth ychwanegol**

**Gwybodaeth ariannol**

Darllenwch y gofynion gwybodaeth ym mhob un o'r blychau llwyd a'u llenwi yn ôl yr angen. Mae'r holl wybodaeth ariannol yn orfodol ar wahân i'r Crynodeb o'r cynllun busnes. Fodd bynnag, rydym yn eich annog i ddarparu'r wybodaeth hon pan fydd ar gael i gyflymu'r adolygiad o'ch cais.

**Mae'r rhestr wirio isod yn crynhoi'r gofynion gwybodaeth ariannol:**

| **Gofyniad** | **Disgrifiad** | Oes/Nac Oes |
|---|---|---|
| **Gorfodol yn y cais** | | |
| Cyfriflenni banc | Cyfriflenni banc am dri mis | Oes/Nac Oes |
| Cyfrifon wedi'u ffeilio | O leiaf un flwyddyn, dwy flynedd os yw ar gael, gan gynnwys elw a cholled | Oes/Nac Oes |
| **Pan fo ar gael** | | |
| Crynodeb o'r cynllun busnes | I gynnwys eich cynnyrch a'ch gwasanaethau, tirwedd gystadleuol, tybiaethau ariannol a gwybodaeth reoli | Oes/Nac Oes |
| Gwybodaeth reoli | Gan gynnwys elw a cholled, mantolen a rhestr dyledwyr a chredydwyr cyfredol | Oes/Nac Oes |
| **Gofynnir amdanynt ar ôl cyflwyno'r cais** | | |
| Rhagolygon llif arian | — Ar gyfer benthyciadau hyd at £150,000: Mae angen cwblhau llif arian 12 mis drwy ein templed gwybodaeth ariannol.<br>— Ar gyfer benthyciadau rhwng £150,001 a £350,000: Yn dibynnu ar hanes credyd, bydd angen i chi naill ai ddarparu llif arian 12 mis drwy ein templed gwybodaeth ariannol neu ragolwg integredig misol (dwy flynedd gan gynnwys elw a cholled, llif arian a mantolen). Ar ôl derbyn y cais, byddwn ni'n cysylltu â chi i gadarnhau pa un sydd ei angen arnom ni.<br>— Ar gyfer benthyciadau sy'n fwy na £350,000: Mae angen cwblhau rhagolwg integredig misol (dwy flynedd gan gynnwys elw a cholled, llif arian a mantolen).<br>— Pan fydd angen, bydd ein templed gwybodaeth ariannol yn cael ei anfon atoch chi ar ôl i ni dderbyn eich cais. | Oes/Nac Oes |

**Gwybodaeth am y prosiect**

**Templed gwybodaeth prosiect** - PLlwythwch y Templed gwybodaeth prosiect i lawr a'i lenwi. Rydym ni'n eich cynghori i lenwi'r ffurflen hon mor drwyadl â phosibl er mwyn osgoi unrhyw oedi gyda'r asesiad o'ch cais drwy'r angen am geisiadau ychwanegol am wybodaeth. Bydd y wybodaeth sydd ei hangen yma yn cynnwys:

— Gwybodaeth am safle'r busnes

— Defnyddio ynni presennol

— Manylion yr archwiliad ynni (os yw wedi cael ei wneud)

— Risgiau a mesurau lliniaru'r prosiect

— Mewnbynnau trothwy cost carbon

— Gwybodaeth am arbedion costau'r prosiect

— Prosiect arbed ynni

Rydym ni'n argymell yn gryf eich bod chi'n gweithio gyda chyflenwr/gosodwr o'ch dewis i gwblhau'r gofynion gwybodaeth ar y daenlen hon. Mae rhagor o arweiniad ar gael ar y templed, ond os oes gennych chi unrhyw gwestiynau penodol am gwblhau'r ddogfen hon, anfonwch e-bost at greenbusiness@developmentbank.wales

Yn dibynnu ar eich prosiect penodol, efallai y bydd angen rhagor o wybodaeth ategol hefyd, fel cynlluniau prosiect, tystiolaeth eich bod wedi sicrhau ffynonellau cyllid eraill ar gyfer unrhyw gostau prosiect na fydd yn cael eu cynnwys yn y Benthyciad Busnes Gwyrdd a chaniatâd cynllunio. Llwythwch yr wybodaeth hon i fyny yn yr un ardal â'r templed gwybodaeth prosiect ar y system ymgeisio ar-lein.

**Dyfynbris cyflenwr** - Bydd gofyn i chi lwytho dyfynbris cyflenwr llawn i fyny sy'n cyd-fynd â manylion y prosiect a ddarparwyd yn y Templed gwybodaeth prosiect. Rhaid i ddyfynbris y cyflenwr fod gan gyflenwr dibynadwy a rhaid dangos y wybodaeth ganlynol yn glir:

— Manylion yr holl gynhyrchion sy'n cael eu gosod, gan gynnwys manylebau cyfarpar

— Asesiad o'r defnydd ynni presennol a rhagolwg o'r defnydd o ynni ar ôl ei osod

— Asesiad o'r gost ynni bresennol a rhagolwg o'r arbedion i'r gost ynni ar ôl gosod

— Allyriadau carbon presennol a rhagolwg o'r allyriadau carbon ar ôl gosod

— Cost y prosiect(au) (gan nodi os yw'n cynnwys TAW ai peidio)

— Cael ei ddarparu ar bapur pennawd y cwmni

— Wedi'i gyfeirio at yr ymgeisydd a hefyd yn cynnwys cyfeiriad y cwmni cyflenwi

— Manylion cyfeiriad gosod

**Gwybodaeth am gyllid y sector cyhoeddus** - Er mwyn sicrhau cydymffurfiad â'r Ddeddf Rheoli Cymhorthdal (2022) drwy ddyfarnu cyllid y sector cyhoeddus, rhaid i fusnesau roi gwybod a ydyn nhw wedi cael unrhyw gyllid sector cyhoeddus arall i'w busnes dros y tair blynedd diwethaf.

**Mae'r rhestr wirio isod yn crynhoi'r gofynion gwybodaeth prosiect:**

| Gofyniad | Disgrifiad | Oes/Nac Oes |
|---|---|---|
| **Gorfodol** | | |
| Templed manylion prosiect | Templed manylion prosiect wedi'i gwblhau, gan gynnwys:<br>— Gwybodaeth am safle'r busnes<br>— Defnyddio ynni presennol<br>— Manylion yr archwiliad ynni (os yw wedi cael ei wneud)<br>— Gwybodaeth am arbedion costau'r prosiect<br>— Gwybodaeth am arbedion ynni'r prosiect | Oes/Nac Oes |
| Dyfynbris cyflenwr | Dyfynbris /au llawn am yr holl waith prosiect yr ymgymerir ag o trwy gyfrwng yr arian cyllido y ceisiwyd amdano | Oes/Nac Oes |
| Ariannu cyhoeddus | Manylion unrhyw gyllid cyhoeddus â chymhorthdal y mae eich busnes wedi'i dderbyn neu wedi gwneud cais amdano yn ystod y tair blynedd diwethaf. Gweler y templed am gyngor ar ba wybodaeth i'w darparu | Oes/Nac Oes |
| Gwybodaeth ategol arall | Fel y nodwyd ar y Templed Gwybodaeth Prosiect, gan ddibynnu ar fanylion eich prosiect | Oes/Nac Oes |

**Gwybodaeth a datganiad yr ymgeisydd** - Rhowch fanylion pob cyfarwyddwr/partner/unig fasnachwr, cyfranddaliwr o 25% neu fwy a rhaid i'r llofnodwr awdurdodedig lenwi adran gwybodaeth a datganiad yr ymgeisydd.

# Cwestiynau cyffredin

## Busnesau cymwys

**A yw pob busnes yng Nghymru yn gymwys?**

Mae'r Cynllun yn agored i bob busnes yng Nghymru sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd busnes a amlinellir ar dudalen 5 y ddogfen hon.

Nid yw busnesau sy'n gweithredu yn y sectorau canlynol yn gymwys i gael cymorth - gamblo, tybaco, cynhyrchu arfau a bwledi neu unrhyw sectorau sy'n achosi effaith amgylcheddol sylweddol neu sy'n ddadleuol yn foesegol neu'n foesol.

**Beth os nad ydw i'n gymwys ar gyfer y cynllun benthyciadau busnes gwyrdd?**

Os nad ydych chi'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd byddem yn eich annog i gysylltu â Busnes Cymru i gael rhagor o gymorth ac arweiniad ar gyfleoedd eraill a allai fod ar gael i chi.

Efallai y byddwch chi hefyd yn gymwys i gael cyllid arall drwy Fanc Datblygu Cymru i gael rhagor o fanylion.

## Prosiectau cymwys

**Pa brosiectau sydd ddim yn gymwys i dderbyn cyllid?**

Mae adran cymhwysedd prosiectau'r ddogfen hon ar dudalen 4 yn rhoi rhagor o wybodaeth am brosiectau sydd ddim yn gymwys i gael benthyciad busnes gwyrdd.

Yn ogystal, mae Atodiad 1 yn darparu rhestr o'r math o brosiectau/mesurau y mae'r Cynllun Benthyciadau Busnes Gwyrdd yn ymdrin â nhw. Fodd bynnag, nid yw'n rhestr gyflawn, a chyn belled â bod y prosiect/mesur yn gallu dangos arbedion ynni neu garbon blynyddol, yna mae'n debygol o fod yn gymwys. Os nad ydych chi'n siŵr a yw eich prosiect yn gymwys, cysylltwch â'n tîm ar greenbusiness@developmentbank.wales

**Beth sy'n digwydd os yw fy ffynhonnell ynni yn 100% o drydan gwyrdd?**

Os yw cwmnïau'n defnyddio 100% o drydan gwyrdd, bydd allyriadau carbon trydan y grid yn cael eu defnyddio fel procsi i sicrhau nad yw busnesau ar dariffau adnewyddadwy yn cael eu cosbi wrth gyfrifo'r gost garbon.

**Beth os nad yw'r cyflenwr rydw i wedi'i ddewis wedi'i achredu?**

Rydym ni'n mynnu bod ymgeiswyr yn contractio cyflenwyr sydd ag enw da ac sydd wedi'u hachredu gyda manylion eu hachrediad perthnasol sydd wedi'i gynnwys yn y Templed gwybodaeth prosiect. Efallai bod eich archwilydd/ymgynghorydd ynni wedi argymell cyflenwyr i chi gysylltu â nhw. Neu, efallai fod gennych chi gontractwyr/cyflenwyr rydych chi eisoes yn gweithio gyda nhw a allai gyflawni'r gwaith, neu efallai y byddai'n well gennych chi fynd allan i'r farchnad.

## Cynnig cyllid

**Sut bydd fy nghyfradd llog yn cael ei chyfleu?**

Yn dilyn gwiriadau cychwynnol, bydd cyfradd llog ddangosol yn cael ei chyfrifo yn seiliedig ar wybodaeth am y prosiect a statws ariannol. Bydd hyn yn cael ei gyfleu i'r ymgeisydd cyn i ragor o waith diwydrwydd dyladwy gael ei wneud.

**Sut mae'r disgownt cyfradd llog yn gweithio'n ymarferol?**

**Enghraifft 1:** Os byddai eich benthyciad wedi cael ei brisio ar 9% o dan ganllawiau prisio safonol Banc Datblygu Cymru a bod y prosiect arfaethedig yn cynnwys mesurau effeithlonrwydd ynni, byddwch yn gymwys i gael disgownt gwyrdd o 3.5%. Byddai'r Gyfradd Llog Net yn cael ei chyfrifo fel 9% gan dynnu 3.5% sy'n arwain at 5.5% yn cael ei osod.

**Enghraifft 2:** Os byddai eich benthyciad wedi cael ei brisio ar 7% o dan ganllawiau prisio safonol Banc Datblygu Cymru a bod y prosiect arfaethedig yn cynnwys technoleg gwres adnewyddadwy, byddwch chi'n gymwys i gael 5%. Byddai'r Gyfradd Llog Net yn cael ei chyfrifo fel 7% gan dynnu 5% = 2%, fodd bynnag byddai hyn yn cael ei addasu i 3% fel y lefel trothwy isaf a ganiateir drwy'r cynnig ariannu.

**Oes modd defnyddio'r benthyciad gwyrdd gyda chyllid arall?**

Mae ymgeiswyr yn cael eu hannog i ganfod yr holl opsiynau cyllid sydd ar gael iddyn nhw, byddem yn annog yr ymgeiswyr i fod wedi siarad â'u bancwyr presennol yn y lle cyntaf. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau eraill gan y llywodraeth, cyn belled â bod y cyllid yn ychwanegol, h.y. nid yw'n talu am yr un costau. Bydd angen rhoi manylion unrhyw gyllid arall a sicrhawyd neu a geisiwyd i dalu costau'r prosiect yn y ffurflen gais.

**A yw'r benthyciad yn cael ei ystyried yn gymhorthdal o dan Gyfundrefn Rheoli Cymhorthdal y DU?**

Ydi, bydd y gostyngiad gwyrdd yn gyfystyr â chymhorthdal o dan Ddeddf Rheoli Cymhorthdal 2022. Bydd gwerth y cymhorthdal a ddarperir i chi yn cyfateb i swm y llog y byddwch yn ei arbed o ganlyniad i ni ddarparu'r disgownt gwyrdd.

Byddwn yn defnyddio un o ddau lwybr amgen i sicrhau bod y cymhorthdal a ddarparwn i chi yn cydymffurfio â'r rheolau rheoli cymhorthdal. Manylir ar y rhain ymhellach isod.

**Cynllun Cymhorthdal Defnyddio Ynni Wedi'i Symleiddio**

Mae'r Cynllun Cymhorthdal Defnyddio Ynni Wedi'i Symleiddio yn caniatáu i gymhorthdal gael ei ddarparu ar gyfer prosiect sy'n cynnwys gosod unrhyw un o'r canlynol mewn adeiladau:

— Mesurau effeithlonrwydd ynni (h.y. mesurau i leihau faint o ynni y mae adeilad yn ei ddefnyddio)

— Mesurau gwresogi carbon isel

— Seilwaith ynni ychwanegol

Mae nifer o amodau y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn i'ch prosiect fod yn gymwys o dan y Cynllun, ac mae'r rheini'n cynnwys y canlynol:

— Rhaid i chi, fel y ceisydd benthyciad, naill ai fod yn berchen ar yr adeilad y mae'r prosiect yn ymwneud ag ef neu'n byw ynddo. Os yw'r perchennog a'r deiliad yn bersonau gwahanol, bydd angen i'r perchennog a'r deiliad fod wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau y gall y prosiect fynd yn ei flaen ac i benderfynu pa un ohonynt fydd yn cael budd y cymhorthdal.

— Nid yw'r prosiect yn cael ei gynnal i gydymffurfio â gofyniad deddfwriaethol neu reoleiddiol.

— Cynhaliwyd Archwiliad Ynni annibynnol gan aseswr ynni achrededig sy'n cefnogi'r prosiect sy'n ceisio cyllid.

— Mae'n gwbl angenrheidiol nad ydych eisoes wedi dechrau ar y prosiect pan fyddwch yn gwneud cais am y Benthyciad Busnes Gwyrdd.

— Ni ddylai'r prosiect gynnwys defnyddio tanwyddau ffosil.

Gallwch ddod o hyd i fanylion llawn y cynllun a'r canllawiau cysylltiedig yma:

— Cynllun Cymhorthdal Defnyddio Ynni Wedi'i Symleiddio

— Canllaw Cynllun Cymhorthdal Defnyddio Ynni Wedi'i Symleiddio

Er mwyn bod yn gymwys i gael cymorth gan ddefnyddio'r Cynllun Cymhorthdal Defnyddio Ynni Wedi'i Symleiddio, ni chaiff cyfanswm y cymhorthdal cyhoeddus a ddarperir ar gyfer eich prosiect fod yn fwy na chyfanswm o £3 miliwn, ac ni chaiff fod yn fwy na'r ganran uchaf a ganiateir o'r costau cymwys. Uchafswm dwyster y cymhorthdal a ganiateir yw 60%, 50% neu 40% o gostau cymwys y prosiect, yn dibynnu a ydych yn fenter fach, ganolig neu fawr yn y drefn honno. Os nad ydych yn gymwys o dan y Cynllun, byddwn yn ystyried yn lle hynny a allwn barhau i'ch cefnogi gan ddefnyddio'r eithriad Cymorth Ariannol Lleiafsymiol. Gweler isod.

**Eithriad Cymorth Ariannol Lleiafsymiol**

Ar gyfer prosiectau nad ydynt yn gymwys o dan y Cynllun Cymhorthdal Defnyddio Ynni Wedi'i Symleiddio, byddwn yn ystyried a allwn ddarparu'r benthyciad gan ddefnyddio'r eithriad Cymorth Ariannol Lleiafsymiol (CALI) yn adran 36 o Ddeddf Rheoli Cymhorthdal 2022. Drwy CALI, mae busnesau'n gallu derbyn cymhorthdal hyd at uchafswm trothwy o £315,000 dros gyfnod o dair blynedd. Mae hyn yn disodli'r eithriad 'de minimis' Cymorth Gwladwriaethol blaenorol.

Er mwyn sicrhau y gellir defnyddio'r eithriad CALI, byddwn yn gofyn i chi roi cadarnhad ysgrifenedig i ni na fydd ein cymhorthdal yn achosi i chi fod yn fwy na'ch hawliad o £315,000. Bydd angen i chi ystyried unrhyw gymorthdaliadau a gawsoch yn ystod y tair blynedd diwethaf o dan yr esemptiad CALI neu o dan yr eithriad Cymorth Gwladwriaethol 'de minimis' neu'r eithriad ar gyfer 'symiau bach o gymorth ariannol' yng Nghytundeb Masnach a Chydweithrediad UE-DU.

Pe byddai ein cymhorthdal yn fwy na'ch hawl sy'n weddill o dan yr eithriad CALI, ni fyddwn yn gallu darparu'r gostyngiad gwyrdd drwy'r Cynllun Benthyciadau Busnes Gwyrdd. Fodd bynnag, efallai yr hoffech siarad ag aelod o'n tîm ynghylch cyllid arall sydd ar gael.

## Cais

**Beth sy'n digwydd os nad ydw i'n gallu cael mynediad at y cais ar-lein?**

Os nad ydych chi'n gallu cwblhau'r cais drwy'r system ar-lein, cysylltwch â'n tîm i gael fersiwn pdf mae modd ei olygu i'w gyflwyno.

**Beth fydd yn digwydd ar ôl i mi gyflwyno fy nghais?**

Ar ôl i ni dderbyn eich cais a'r holl wybodaeth ategol angenrheidiol, byddwn ni'n cynnal archwiliadau cychwynnol i bennu cymhwysedd ariannol. Yn dilyn yr adolygiad hwn a'r adolygiad o wybodaeth y prosiect, bydd un o'n tîm yn cysylltu â chi i roi gwybod beth fydd eich cyfradd llog dangosol.

Ar ôl i ni gael cytundeb i barhau ar sail y gyfradd llog ddangosol, byddwn ni'n cynnal diwydrwydd dyladwy technegol ar y prosiect ynghyd â diwydrwydd dyladwy ariannol manylach. Ar yr amod bod y camau hyn yn cael eu cwblhau'n foddhaol, byddwn ni'n anfon llythyr atoch chi ar ôl hyn byddwch chi'n gallu dechrau ar y prosiect.

**Faint o amser fydd y broses ymgeisio'n ei gymryd?**

Bydd ein hamser ymateb ar gyfer eich cais yn dibynnu ar faint o gyllid sydd ei angen arnoch chi a chymhlethdod eich prosiect. Ar gyfer benthyciadau hyd at £50,000, mae'r rhain fel arfer yn cymryd tua 10 diwrnod i'w prosesu. Ar gyfer benthyciadau dros £50,000, mae'r rhain fel arfer yn cymryd tua 30 diwrnod i'w prosesu. Ar gyfer achosion mwy cymhleth, mae'n gallu cymryd hyd at 40 diwrnod.

## Taliad

**Pryd fydda i'n cael y benthyciad?**

Bydd swm y benthyciad y cytunwyd arno yn cael ei ryddhau ar ôl derbyn yr hysbysiad tynnu i lawr a fydd yn cael ei ddarparu fel rhan o'r llythyr cynnig benthyciad. Bydd angen i'r anfoneb cyflenwr gyd-fynd â'r llythyr hwn.

Mewn rhai amgylchiadau, pan fydd cyflenwyr angen taliad rhannol ymlaen llaw, gellir cytuno ar ryddhau'r cyllid fesul cyfran. Os oes angen hyn ar eich prosiect, rhaid i chi gynnwys hyn yn eich ffurflen gais.

**Sylwer:** Mae Banc Datblygu Cymru yn cadw'r hawl i ohirio rhyddhau os oes angen i ymgynghorydd cymwysedig neu gynrychiolydd Banc Datblygu Cymru gynnal archwiliad safle.

## Cyswllt

**Gyda phwy ddylwn i gysylltu os oes gen i ymholiad am gais newydd neu gais sydd eisoes yn bodoli?**

Anfonwch e-bost at greenbusiness@developmentbank.wales neu ffonio **0800 587 4140**.

# Atodiad 1

## Enghreifftiau o fesurau a gefnogwyd

**Gwresogi, awyru ac aerdymheru**

- Unedau aer cynnes
- Unedau gwresogi rheiddiol
- Gwresogi dan y llawr
- Llenni aer
- Adnewyddu/uwchraddio'r system oeri
- Rheolaethau gwresogi ac oeri
- Systemau rheoli adeiladau
- Unedau adfer gwres
- Ffaniau effeithlon iawn (dadhaenu, ffaniau'r system awyru ac ati)
- Systemau dŵr poeth masnachol
- Gwresogyddion Stôr Trydan

**Yr Adeiladwaith**

- Inswleiddio waliau ceudod
- Insiwleiddio'r atig
- Inswleiddio to fflat
- Inswleiddio waliau mewnol
- Inswleiddio waliau allanol
- Atal drafftiau
- Insiwleiddio'r llawr
- Insiwleiddio systemau gwresogi (silindr, pibellau ac ati)
- Drysau allanol a mewnol sy'n perfformio'n dda
- Gorchuddion ffenestr sy'n perfformio'n dda
- Ffenestri gwydr dwbl/triphlyg
- Ffenestri gwydr eilaidd

**Ynni adnewyddadwy**

- Solar Ffotofoltäig
- Tyrbin gwynt
- System micro-hydro
- Solar Thermol
- Boeler Biomas
- Gwresogyddion ystafell biomas (gyda rheiddiaduron)
- Pwmp gwres ffynhonnell aer
- Pwmp sy'n codi gwres o ddŵr
- Pwmp sy'n codi gwres o'r ddaear
- Gwres a phŵer cyfunedig biomas
- Treulio anerobig

**Offer arall**

- Cyfarpar mesur, monitro a rheoli
- Systemau goleuo, gosodiadau a rheolaethau
- Rheoli foltedd
- Gyriannau cyflymder amrywiol
- Motors a rheolaethau sy'n defnyddio ynni'n effeithlon
- Cywasgwyr aer
- Offer coginio a phobi masnachol
- Cyfarpar glanhau masnachol e.e. peiriannau golchi dillad, peiriannau sychu dillad, peiriannau golchi llestri
- Unedau oergell a rhewgell masnachol
- Drysau/gorchuddion oergelloedd gwydr
- Sychwyr dwylo effeithlon iawn
- Offer TG
- Gorchuddion pwll nofio

**Nodwch:** Bydd y disgownt uwch ar gyfer prosiectau sydd ag ad-daliad anatyniadol (h.y. dros gyfnod y benthyciad) a/neu atebion gwres carbon isel. Gall hyn gynnwys technoleg gwres adnewyddadwy ac uwchraddio adeiladwaith.

[bancdatblygu.cymru](http://bancdatblygu.cymru)

[developmentbank.wales](http://developmentbank.wales)

Banc Datblygu Cymru ccc yw cwmni daliannol Grŵp sy'n masnachu fel Banc Datblygu Cymru. Mae'r Grŵp yn cynnwys nifer o is-gwmnïau sydd wedi'u cofrestru gydag enwau gan gynnwys y llythrennau BDC. Mae Banc Datblygu Cymru ccc yn gwmni cyllid datblygu sy'n eiddo i Weinidogion Cymru yn gyfan gwbl ac nid yw'n cael ei awdurdodi na'i reoleiddio gan yr Awdurdod Rheoli Darbodus (ARhD) nac yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (AYA). Mae gan Fanc Datblygu Cymru dri o is-gwmnïau sy'n cael eu hawdurdodi a'u rheoleiddio gan yr AYA. Noder os gwelwch yn dda nad yw Banc Datblygu Cymru ccc nac unrhyw un o'i is-gwmnïau yn sefydliadau bancio ac nid ydynt yn gweithredu fel y cyfryw. Mae hyn yn golygu nad yw unrhyw un o endidau'r grŵp yn gallu derbyn adneuon gan y cyhoedd. Gellir dod o hyd i siart strwythur cyfreithiol cyflawn ar gyfer Banc Datblygu Cymru ccc ar Bancdatblygu.cymru.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government